| | |
|---|---|
| **Eich cyf / Your ref:** | |
| **Ein cyf / Our ref:** | |
| **Dyddiad / Date:** | 10/05/2022 |
| **Rhif union / Direct dial:** | 01824 708064 |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council


**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg
Head of Education


Annwyl Riant / Gofalwr,

**<u>Y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau presenoldeb mewn ysgolion</u>**

Hysbysir rhieni a gofalwyr yn Sir Ddinbych bod Llywodraeth Cymru wedi dychwelyd i ddefnyddio Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer diffyg presenoldeb mewn ysgolion.

Yn dilyn cyhoeddiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn y canllawiau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at eu haddysg.

Meddai Geraint Davies, Pennaeth Addysg y Cyngor: “Mae Sir Ddinbych yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am y diweddariad gan y gweinidog addysg. Rydym yn ymrwymo i sicrhau presenoldeb, cyflawniad a lles pobl ifanc yn yr ysgol.

“Dim ond yn yr achosion mwyaf eithafol y byddwn yn defnyddio Rhybuddion Cosb Benodedig, fel rhan o amrywiaeth o ddewisiadau a phan fydd pob ymdrech i ymgysylltu wedi'i cheisio ac wedi methu, a phryd mae'n amlwg nad oes unrhyw resymau sylfaenol sy'n effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol.

“Gofynnwn i rieni a gofalwyr weithio’n agos gydag ysgolion ac addysg gan roi gwybod am unrhyw anawsterau neu broblemau sy’n cael effaith ar bresenoldeb eu plentyn. Dylid trafod unrhyw resymau dilys dros absenoldeb â’r ysgol i sicrhau bod Sir Ddinbych yn gallu cydweithio gyda rhieni ac ysgolion i gynnal presenoldeb disgyblion y sir yn yr ysgol.”

Daw’r canllawiau newydd i rym ar unwaith.

Er bod rhybuddion cosb benodedig am ddiffyg presenoldeb wedi bod ar gael i awdurdodau lleol yn ystod y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru wedi argymell yn gyffredinol yn erbyn eu defnyddio.

Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â https://llyw.cymru/datganiad-llafar-presenoldeb-ysgol

Yn gywir,

G.W. Davies

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg


Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i’ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma’n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni’n trin eich gwybodaeth bersonol.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .

Dear Parent / Carer,

**Update on school attendance guidance**

Parents and carers in Denbighshire are being informed that the Welsh Government has reverted back to the use of Fixed Penalty Notices for non-school attendance.

Following an announcement from the Minister for Education and Welsh Language, Denbighshire County Council will follow the guidance to ensure young people are accessing their education.
Geraint Davies, the Council's Head of Education, said: "Denbighshire is informing parents and carers of the update from the minister for education. We are committed to ensuring school attendance, attainment and the well-being of our young people.

"The Fixed Penalty Notices are to be used in only the most extreme cases, as part of a range of options and when all efforts to engage have been tried and failed, and where it is evident that there are no underlying reasons that are impacting upon attendance at school.

"We ask that parents and carers work with schools and education closely communicating any difficulties and issues that are impacting on their child attending school regularly. Where there are genuine reasons for absences these must be discussed with school to ensure Denbighshire can work collaboratively with parents and schools to maintain school attendance of all pupils in the county."

The new guidance is effective immediately.

Fixed-penalty notices for non-attendance had been available to local authorities during the pandemic, however the Welsh Government had recommended against their use.

For more information visit https://gov.wales/oral-statement-school-attendance

Yours sincerely,

G.W. Davies

**Geraint Davies**
Head of Education

Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
Ffôn: 01824 708064
e-bost: geraint.davies@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council
PO Box 62
Ruthin
LL15 9AZ
Phone: 01824 708064
e-mail: geraint.davies@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn berthnasol i'ch cais. Ni fydd yr wybodaeth yma'n cael ei rannu gydag unrhyw drydydd parti oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.
Ymwelwch â www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol.

Denbighshire County Council collects your personal information to provide you with services relevant to your request. This information will not be shared with any other third party unless the law requires us to do so.
For further information about how we handle personal information, please visit www.denbighshire.gov.uk/privacy .